

YR AELOD CABINET DROS GARTREFI A DIRPRWY ARWEINYDD

DYDD IAU, 12 IONAWR 2023

PRESENNOL: Y Cyngorydd L.D. Evans (Yr Aelod Cabinet) (Yn rhithwir)

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.25 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 1AF RHAGFYR 2022

PENDERFYNWYD Ilofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022, gan ei fod yn gofnod cywir.

3. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lefel y gweithgarwch cuddwyllo a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2022 ynghyd ag adolygiad a gyflawnwyd o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer gweithgarwch o'r fath

Nododd yr Aelod Cabinet fod y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn darparu fframwaith cyfreithiol lle gallai'r Cyngor ofyn am awdurdodiad i gynnal gweithgarwch cuddwyllo mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol, i adrodd yn flynyddol ar ei ddefnydd o'r pwerau hynny, parhau i adolygu ei weithdrefnau a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol. Nodwyd nad oedd y Cyngor wedi cynnal unrhyw wylidwriaeth yn 2022, yn wir nid oedd wedi gwneud hynny ers 2015.

Nodwyd bod Swyddfa'r Comisiwn Pwerau Ymchwilio wedi arolygu gweithdrefnau'r Cyngor yn 2022 ac er bod Swyddfa'r Comisiwn yn fodlon bod yr hyn a oedd ar waith yn briodol i sicrhau cydymffurfiaeth, roedd wedi argymhell mân newidiadau i weithdrefnau ysgrifenedig y Cyngor i adlewyrchu'r broses o ddileu yn ffurfiol y canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwylidwriaeth, a oedd wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau'r Cyngor

O ran hyfforddiant staff, nodwyd bod 14 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant gloywi yn 2022 ond nad oedd unrhyw hyfforddiant eang pellach yn cael ei ystyried yn angenrheidiol nac yn gymesur ar hyn o bryd o ystyried y sefyllfa nad oedd cuddwyllo wedi'i wneud ers 2015.

PENDERFYNWYD:

- 3.1 nodi'r gweithgaredd cuddwyllo yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2022;**
- 3.2 nodi canlyniad yr archwiliad gan Swyddfa'r Comisiwn Pwerau Ymchwilio**
- 3.3 cymeradwyo'r Weithdrefn Arolygu Corfforaethol ar gynnal gwylidwriaeth ar gyfer 2023.**

CHAIR

DATE